



Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC mewn Lletygarwch ac Arlwyo (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 2

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

	Tudalen
Briff a thasgau'r aseiniad	3
Canllaw i reolaethau	9
Cynllun marcio	12

Uned 2: Lletygarwch ac Arlwyio ar waith

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

12 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau'r aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gwblheir yn ystod y ffenestr Asesu. Bydd cyfanswm o 12 awr ar gael i gyflawni'r tasgau a asesir. Ni chaniateir mwy o amser na hynny. Rhoddir amseriadau a argymhellir ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd gennych yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Pan fydd tasg yn nodi 'ni chaniateir cydweithio', mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn bodloni'r gofynion asesu.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff na'r tasgau.

Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC/Eduqas mewn Lletygarwch ac Arlwy (Dyfarniad Technegol)

Uned 2 – Lletygarwch ac Arlwy ar Waith

Asesiad dan Reolaeth

Briff yr Aseiniad

Mae *The Thirsty Camel (TTC)* yn sefydliad lletygarwch ac arlwy sydd wedi'i leoli yng nghanol dinas brysur.

Mae'n denu amrywiaeth fawr o bobl gyda'r nos ac ar benwythnosau ond mae'n ei chael hi'n anodd denu cwsmeriaid yn y dydd yn ystod yr wythnos.

Mae *TTC* yn awyddus i gynyddu gwerthiant yn ystod diwrnodau'r wythnos ac yn penderfynu ailwampio'r fwydlen ginio i ddenu teuluoedd â phlant cyn oed ysgol. Rhaid i'r seigiau fod yn addas i ddiwallu anghenion maeth **menywod beichiog** a **phlant ifanc**. Mae gan *TTC* dîm bach o chefs sy'n coginio amrywiaeth eang o seigiau sy'n cynrychioli'r canol dinas amlddiwylliannol. Defnyddir cynhyrchion lleol lle y bo'n bosibl. Mae gan *TTC* arferion cynaliadwy ardderchog fel lleihau gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae'r gegin ei hun yn fach ond mae amrywiaeth o gyfarpar arbenigol, cyfarpar llaw a chyfarpar trydanol ar gael.

Fel commis chef ar gyfer *TTC*, gofynnwyd i chi gynllunio, paratoi, coginio, cyflwyno ac adolygu **dwy** saig. Gall y seigiau fod yn gyrsiau cyntaf, yn brif gyrsiau neu'n bwdinau.

Bydd angen i chi wneud y canlynol:

- dadansoddi briff yr aseiniad ac argymhell **dwy** saig*, un ar gyfer pob un o'r cwsmeriaid a nodir yn y briff.
- llunio cynllun cynhyrchu i ddangos sut caiff y seigiau eu paratoi, eu coginio a'u cyflwyno o fewn yr amser a neilltuir.
- cwblhau'r gwaith o baratoi a choginio'r ddwy saig.
- gwerthuso ac adolygu'r seigiau.
- adolygu eich perfformiad eich hun.

* gall y saig fod yn gwrs cyntaf, yn brif gwrs neu'n bwdin a dylai gynnwys y cyfwyd priodol.

Tasgau'r Aseiniad

Tasg 1

Cynnwys yr uned	Tasgau		Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Rheolaethau Amser	a Argymhellir	AA	Marciau
2.1	1.	Pwysigrwydd maeth.					12
2.1.1	(a)	Dadansoddwch friff yr aseiniad ac argymhellwch un saig ar gyfer pob cwsmer. Aseswch sut mae'r saig yn diwallu anghenion maeth y cwsmer. Rhaid i chi ddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd y canlynol: - macro-faetholion - microfaetholion.	Ymateb ysgrifenedig/wedi' i deipio yn y pecyn i ymgeiswyr.	2 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Ni chaniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[8]
2.1.2	(b)	Esboniwch effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd.				AA2	[4]

Tasg 2

Cynnwys yr uned	Tasgau	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau	
2.2	Cynllunio bwydlenni.						
	2.					18	
2.2.1	(a)	Trafodwch y ffactorau a effeithiodd ar eich dewis chi o seigiau. Dylech ddangos eich gwybodaeth o'r ffactorau a effeithiodd ar eich dewis chi o seigiau. Gall atebion gynnwys: • cost • rheoli cyfrannau • deietau cytbwys • yr amser o'r dydd • cleientiaid/cwsmeriaid • cyfarpar sydd ar gael • technegau'r chef • amser sydd ar gael • materion amgylcheddol • adeg o'r flwyddyn • organoleptig.	Adroddiad ysgrifenedig/wedi 'i deipio	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[8]
2.2.2	(b)	Cynlluniwch sut y byddwch yn creu eich dwy saig. Dylech ddangos tystiolaeth o'r canlynol: • rhestr nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint • rhestr cyfarpar • iechyd, diogelwch a hylendid • cynlluniau wrth gefn • pwyntiau ansawdd • dilyniannu/cydweddu • amseriadau • mise en place • coginio • oeri • cadw'n boeth • gweini • storio.	Cynllun creu	2 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[10]

Tasg 3

Cynnwys yr uned	Tasgau		Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marcia u
2.3	Y technegau a ddefnyddir i baratoi, coginio a chyflwyno seigiau.						66
	3.						
2.3.3	(a)	Dangoswch sut i weithio'n ddiogel a dilyn yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran diogelwch a hylendid bwyd wrth baratoi a choginio bwyd a defnyddio cyfarpar a chyfleusterau.	Cofnod arsylwi'r athro	3 ½ awr	Goruchwyliaeth: Uniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: A Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	[8]
2.3.1	(b)	Paratowch y seigiau, gan ddangos amrywiaeth o dechnegau paratoi/cyllell sylfaenol, canolig a chymhleth.				AA2	[24]
	(c)	Coginiwch y seigiau, gan ddangos amrywiaeth o dechnegau coginio sylfaenol, canolig a chymhleth.				AA2	[26]
2.3.2	(ch)	Cyflwynwch y seigiau mewn ffordd sy'n briodol i'r briff. Ymhlith y technegau y dylai ymgeiswyr eu dangos mae: • creadigrwydd • garnais ac addurno • rheoli cyfrannau • cyfwydydd.				AA2	[8]

Tasg 4

Cynnwys yr uned	Tasgau	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau	
2.4	Gwerthuso technegau coginio						
	4.					24	
2.4.1	(a)	Aseswch y gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd. Dylech ddarparu adolygiad o'ch gwaith cynllunio, paratoi a choginio, gan dynnu sylw at lwyddiannau ac agweddau y gellir eu datblygu ymhellach o bosibl. Dylai atebion gyfeirio at y canlynol: • creu a dewis seigiau • organoleptig gan gynnwys priodweddau. • gwelliannau • cyflwyniad • iechyd, diogelwch a hylendid • gwastraff bwyd.	Adroddiad ysgrifenedig/ wedi'i deipio/recordi ad llais	1 3/4 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[12]
2.4.2	(b)	Adolygwch eich perfformiad eich hun. Dylech ddarparu adolygiad o'ch perfformiad eich hun. Dylech nodi cryfderau a gwendidau a dylai atebion gyfeirio at y canlynol: • gwneud penderfyniadau • trefniadaeth • cynllunio – gan gynnwys manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd gennych a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff. • rheoli amser.	Adroddiad ysgrifenedig/ wedi'i deipio	1 3/4 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	[12]
					Cyfanswm y marciau:	[120]	

Canllaw i Reolaethau

Mae sawl agwedd wahanol a reolir wrth asesu ein Dyfarniadau Galwedigaethol yn fewnol. Y rhain yw:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio

Goruchwyliaeth

Bydd dwy lefel o oruchwyliaeth i'w gweld drwy gydol Asesiad dan Reolaeth Uned 2 Lletygarwch ac Arlwyio:

Uniongyrchol	Mae'r defnydd o adnoddau wedi'i ragnodi'n llym. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod y goruchwylwr yn gallu gweld pob ymgeisydd yn glir drwy gydol y sesiwn/sesiynau • bod deunyddiau arddangos a allai fod o gymorth yn cael eu tynnu neu eu gorchuddio. • nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio e-bost, y rhyngrwyd na ffônau symudol. • bod ymgeiswyr yn cwblhau eu gwaith yn annibynnol. • nad yw ymgeiswyr yn cyfathrebu â'i gilydd. • nad oes unrhyw fath o gymorth yn cael ei roi. • rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Pan nodir bod angen goruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod poster Dim Ffônau Symudol JCQ a Rhybudd JCQ i Ymgeiswyr yn cael eu harddangos.
Anuniongyrchol	Nid oes rhaid goruchwyllo ymgeiswyr yn uniongyrchol bob amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad. • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau bod y gwaith yn gallu cael ei ddilysu. • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Canllawiau

Bydd dwy lefel o ganllawiau i'w gweld drwy gydol Asesiad dan Reolaeth Uned 2 Lletygarwch ac Arlwy:

Categori o Gyngor/Adborth: <i>Gall athrawon:</i>	Uniongyrchol	Anuniongyrchol
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol .	✗	✓
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	✗	✗
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	✗	✗
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	✗	✗
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	✗	✗

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth ar gael i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Yn Uned 2, bydd ymgeiswyr yn ymgymryd â thasgau sy'n nodweddiadol o'r gweithle ac felly caniateir iddynt ddefnyddio adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer yn yr amgylchedd hwnnw.

Bydd un lefel o reolaeth dros adnoddau i'w gweld drwy gydol Asesiad dan Reolaeth Uned 2 Lletygarwch ac Arlwy:

Caniateir	Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio adnoddau a/neu nodiadau paratoi yn ôl cyfarwyddyd y briff neu'r arweiniad yn yr uned. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen. Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.
------------------	---

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments – policies and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithio

Bydd un lefel o reolaeth o ran cydweithio i'w gweld drwy gydol Asesiad dan Reolaeth Uned 2 Lletygarwch ac Arlwyo:

Ni chaniateir

Ni ddylai ymgeiswyr gydweithio mewn unrhyw ffordd yn ystod y dasg.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio o fewn yr amser a neilltuir ar gyfer yr asesiad dan reolaeth a heb adborth gan yr athro.

Amser

Neilltuir cyfanswm o 12 awr ar gyfer tasgau a asesir. Ni chaniateir mwy o amser na hynny. O ran rheolaethau amser, canllaw yn unig fydd yr amseriadau a argymhellir ar gyfer tasgau Uned 2. Fodd bynnag, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i beidio â chymryd mwy o amser na hynny na pheidio â chymryd digon o amser i wneud y gwaith hwn.

Cynllun marcio

Canllawiau

Gridiau asesu ar gyfer asesiad dan reolaeth – Uned 2

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Mae'r marciau a ddyfernir yn farciau cyflawn bob amser (nid hanner marciau, na ffracsiynau eraill).
- Dim ond pan gaiff y nodweddion hyn eu hasesu'n benodol gan y cwestiwn fel y nodir gan y cynllun marcio y dylid beirniadu ansawdd y sillafu, yr atalnodi, a'r gramadeg. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gellir cyfyngu ar y defnydd o'r ystod lawn o farciau yn unol ag ansawdd yr ymatebion a welir gan ymgeiswyr).
- Mae'r marciau a ddyfernir yn seiliedig ar y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio yn unig. Ni ddylid dyfarnu marciau gan ystyried trothwyon gradd na disgrifyddion gradd.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r broses anodi, gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnlol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnlol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gwahaniaethu o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn ar gyfer llunio ein cynllunio marcio. Fe'u defnyddir er mwyn sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Bydd cynlluniau marcio yn defnyddio'r tabl hwn fel sail ar gyfer asesu pob cwestiwn ond byddant yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Disgrifiydd Band	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	- Yn ymwybodol o amrediad eang o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn. - Defnydd effeithiol a manwl gywir o derminoleg.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n gyson at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n gyson ac effeithiol ac maent o safon uchel. - Yn gallu llunio dehongliad trwyadl, wedi'i ddatblygu'n llawn sy'n hollol gywir.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol iawn. - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl effeithiol a chytbwys. - Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da lawn	- Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad datblygedig sy'n gywir ar y cyfan.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno o bosibl mewn ffordd gyfartal. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Da	- Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad datblygedig sy'n gywir ar y cyfan.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno o bosibl mewn ffordd gyfartal. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.

Boddhaol	- Yn cynnwys gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/tasg. - Defnydd manwl gywir o derminoleg ar y cyfan.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg ar y cyfan. - Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. - Yn gallu llunio dehongliad cadarn sy'n gywir ar y cyfan.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol a chadarn. - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl gadarn NEU - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl unochrog. - Gwerthusiad sy'n cynnig rhai barnau, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.
Sylfaenol	- Yn dangos peth gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Peth defnydd o derminoleg briodol.	- Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n rhannol at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Sgiliau ymarferol o safon ganolig i isel. - Yn gallu llunio rhywfaint o ddehongliad sy'n dangos peth cywirdeb.	- Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. - Caiff tystiolaeth ei dethol i lunio dadl unochrog. - Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, ac sy'n cynnwys cyn lleied o dystiolaeth â phosibl.
Cyfyngedig	- Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. - Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. - Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	- Ni chaiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso rhyw lawer at gyd-destun y cwestiwn/tasg. - Sgiliau ymarferol o safon isel. - Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. - Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barnau/casgliadau syml neu nid oes barnau/casgliadau o gwbl.

O edrych ar bob un o'n cynlluniau marcio, fe welwch fod gan bob band ddilysiant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o ris waelod, i ris uchaf. Y band lefel isaf 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf o ran perfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion yn datblygu drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, ond dylai ymgeiswyr ddangos **yr holl ofynion** a gaiff eu cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn cyflawni marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai'r marcwyr weld a yw hefyd yn dangos unrhyw rai o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni rhai o'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid pob un ohonynt. Os felly, dylid defnyddio egwyddor ffit orau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y cafodd y cynlluniau marcio ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol eu llunio, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r bandiau marciau ar gyfer Ardderchog, Da Iawn a Da, yn y Canllaw Gweinyddu ar gyfer Dyfarniadau Galwedigaethol.

Uned 2 Lletygarwch ac Arlwyio ar Waith Cynllun marcio'r aseiniad

Tasg 1

Tasg 1 (a) *Dadansoddwch briff yr aseiniad ac argymhellwch un saig ar gyfer pob cwsmer. Aseswch sut mae'r saig yn diwallu anghenion maeth y cwsmer.* [8-7 marc]

Rhaid i chi ddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd y canlynol:

- *macro-faetholion*
- *micro-faetholion.*

Noder: ni ellir dyfarnu'n uwch na marciau Band 2 am ymateb sydd ond yn ystyried un saig a/neu un math o gwsmer.

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau.
4	7-8 marc Ymateb gwych sy'n dangos: • dadansoddiad hynod effeithiol o'r briff sy'n arwain at argymhelliad o seigiau a ystyriwyd yn llawn • asesiad manwl ac effeithiol o'r ffordd y mae pob saig yn diwallu anghenion maeth y ddau fath o gwsmer • ystyriaeth lawn o ofynion y dasg.
3	5-6 marc Ymateb da sy'n dangos: • dadansoddiad effeithiol o'r briff sy'n arwain at argymhelliad ystyrion o seigiau • asesiad manwl o'r ffordd y mae pob saig yn diwallu anghenion maeth y ddau fath o gwsmer • ystyriaeth o ofynion y dasg.
2	3-4 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o ddadansoddiad o'r briff sy'n arwain at argymhelliad a ystyriwyd yn rhannol o seigiau • rhywfaint o asesiad o'r ffordd y mae pob saig yn diwallu anghenion maeth y ddau fath o gwsmer • rhywfaint o ystyriaeth o ofynion y dasg.
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • dadansoddiad cyfyngedig o'r briff sy'n arwain at argymhelliad nad yw wedi'i ystyried rhyw lawer o seigiau • nid oes rhyw lawer o asesiad o'r ffordd y mae pob saig yn diwallu anghenion maeth y ddau fath o gwsmer • nid oes rhyw lawer o ystyriaeth o ofynion y dasg.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

Tasg 1.(b)	Esboniwch effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd.	[4-7 marc]
	Dyfarnwch bedwar marc am esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn o effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd. Dyfarnwch dri marc am esboniad wedi'i ddatblygu o effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd. Dyfarnwch ddau farc am esboniad sylfaenol o effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd. Dyfarnwch un marc am esboniad cyfyngedig o effaith dulliau coginio ar werth maethol y seigiau a ddewiswyd.	

DRAFT

Tasg 2

Tasg 2 (a)	Trafodwch y ffactorau a effeithiodd ar eich dewis chi o seigiau. [8-7 marc] Dylech ddangos eich gwybodaeth o'r ffactorau a effeithiodd ar eich dewis chi o seigiau. Gall atebion gynnwys: • <i>cost</i> • <i>rheoli cyfrannau</i> • <i>deietau cytbwys</i> • <i>yr amser o'r dydd</i> • <i>cleientiaid/cwsmeriaid</i> • <i>cyfarpar sydd ar gael</i> • <i>technegau'r chef</i> • <i>amser sydd ar gael</i> • <i>materion amgylcheddol</i> • <i>adeg o'r flwyddyn</i> • <i>organoleptig.</i>
Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau.
4	7-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o'r ffactorau a effeithiodd ar y seigiau a ddewiswyd ganddo drwy: • drafod amrywiaeth eang o ffactorau • ystyried yn llawn sut y gwnaeth pob ffactor perthnasol effeithio ar y seigiau a ddewiswyd ganddo • dangos yn glir y broses gwneud penderfyniadau wrth ddewis pob saig.
3	5-6 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da o'r ffactorau a effeithiodd ar y seigiau a ddewiswyd ganddo drwy: • drafod amrywiaeth o ffactorau • ystyried sut y gwnaeth pob ffactor perthnasol effeithio ar y seigiau a ddewiswyd ganddo • dangos y broses gwneud penderfyniadau wrth ddewis pob saig.
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o'r ffactorau a effeithiodd ar y seigiau a ddewiswyd ganddo drwy: • drafod rhai ffactorau • ystyried yn rhannol sut y gwnaeth pob ffactor perthnasol effeithio ar y seigiau a ddewiswyd ganddo • dangos yn rhannol y broses gwneud penderfyniadau wrth ddewis pob saig.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o'r ffactorau a effeithiodd ar y seigiau a ddewiswyd ganddo drwy: • drafod ambell ffactor yn unig • heb ystyried rhyw lawer y ffordd y gwnaeth pob ffactor perthnasol effeithio ar y seigiau a ddewiswyd ganddo • heb ddangos rhyw lawer y broses gwneud penderfyniadau wrth ddewis pob saig.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2 (b)	<i>Cynlluniwyd sut y byddwch yn creu eich dwy saig.</i> <i>Dylech ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> <i>• rhestr nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint</i> <i>• rhestr cyfarpar</i> <i>• iechyd, diogelwch a hylendid</i> <i>• cynlluniau wrth gefn</i> <i>• phwyntiau ansawdd</i> <i>• ddilyniannu/cydweddu</i> <i>• amseriadau</i> <i>• mise en place</i> <i>• coginio</i> <i>• oeri</i> <i>• cadw'n boeth</i> <i>• gweini</i> <i>• storio.</i>	[10 marc]
Noder: ni ellir dyfarnu'n uwch na marciau Band 2 am ymateb sy'n cynllunio ar gyfer un saig yn unig.		
Band	AA2: Defnyddio technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.	
4	9-10 Marciau Ymateb ardderchog sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn o'r gwaith o gynllunio'r broses gynhyrchu, gan arwain at gynllun wedi'i ddatblygu'n llawn sydd: - wedi'i ddilyniannu gydag amseriadau cywir a chyfarwyddiadau manwl ar gyfer mise en place, coginio, oeri, cadw'n boeth, gweini a storio - wedi'i gyflwyno'n glir mewn fformat hawdd ei ddilyn - yn cynnwys cynlluniau wrth gefn effeithiol iawn ar gyfer pob sefyllfa - yn darparu rhestr fanwl ac effeithiol o nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint. - yn rhoi ystyriaeth fanwl ac effeithiol i faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.	
3	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: - gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol o'r gwaith o gynllunio'r broses greu, gan arwain at gynllun datblygedig sydd: - wedi'i ddilyniannu gydag amseriadau cywir yn bennaf a chyfarwyddiadau ar gyfer mise en place, coginio, oeri, cadw'n boeth, gweini a storio - wedi'i gyflwyno mewn fformat hawdd i'w ddilyn - yn cynnwys cynlluniau wrth gefn effeithiol ar gyfer y mwyafrif o sefyllfaoedd - yn darparu rhestr fanwl o nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint, gyda rhai hepgoriadau - yn rhoi ystyriaeth fanwl i faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.	
2	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos:	

	• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith o gynllunio'r broses greu, gan arwain at gynllun sydd: • wedi'i ddilyniannu gydag amseriadau cywir yn rhannol a chyfarwyddiadau ar gyfer mise en place, coginio, oeri, cadw'n boeth, gweini a storio • wedi'i gyflwyno mewn fformat sy'n rhannol hawdd i'w ddilyn • yn cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer rhai sefyllfaoedd • yn darparu rhestr nwyddau gan gynnwys manylion am nifer/maint, gyda rhai hepgoriadau. • yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.
1	1-2 farc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwaith o gynllunio'r broses greu, gan arwain at gynllun sylfaenol sydd: • yn gwneud fawr ddim ymgais, os o gwbl, i ddilyniannu ac sy'n cynnwys amseriadau a chyfarwyddiadau anghywir ar gyfer mise en place, coginio, oeri, cadw'n boeth, gweini a storio • wedi'i gyflwyno mewn fformat aneglur sy'n anodd ei ddilyn • yn cynnwys prinder cynlluniau wrth gefn • yn darparu rhestr gyfyngedig o nwyddau • fawr ddim ystyriaeth o faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

Tasg 3 (a) Dangoswch sut i weithio'n ddiogel a dilyn yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran diogelwch a hylendid bwyd wrth baratoi a choginio bwyd a defnyddio cyfarpar a chyfleusterau. [8-7 marc]	
Band	AA2: Defnyddio technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	7-8 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol iawn ynghylch sut i weithio'n ddiogel, gan ddilyn: • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer diogelwch bwyd • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran hylendid • y gallu i ddefnyddio cyfarpar a chyfleusterau'n ddiogel bob amser • ystyriaeth effeithiol iawn o faterion iechyd, diogelwch a hylendid a phwyntiau ansawdd drwy gydol yr asesiad ymarfero.
3	5-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth effeithiol ynghylch sut i weithio'n ddiogel, gan ddilyn: • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer diogelwch bwyd • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran hylendid • y gallu i ddefnyddio cyfarpar a chyfleusterau'n ddiogel bob amser • ystyriaeth effeithiol o faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch sut i weithio'n ddiogel, gan ddilyn: • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer diogelwch bwyd • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran hylendid • y gallu i ddefnyddio cyfarpar a chyfleusterau'n ddiogel y rhan fwyaf o'r amser • rhywfaint o ystyriaeth o faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos: • ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch sut i weithio'n ddiogel, gan ddilyn: • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir ar gyfer diogelwch bwyd • yr arferion a'r gweithdrefnau cywir o ran hylendid • y gallu i ddefnyddio cyfarpar a chyfleusterau'n ddiogel rhywfaint o'r amser • fawr ddim ystyriaeth o faterion iechyd, diogelwch a hylendid, a phwyntiau ansawdd.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.

Tasg 3 (b) <i>Paratowch y seigiau, gan ddangos amrywiaeth o dechnegau paratoi/cyllell sylfaenol, canolig a chymhleth.</i> [2 x 12] [24 marc]		
Band	AA2: <i>Defnyddio technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>	
	Saig 1	Saig 2
4	10-12 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell cymhleth yn bennaf a ddefnyddir yn effeithiol, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad.	10-12 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o ran technegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell cymhleth yn bennaf a ddefnyddir yn effeithiol, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad.
	7-9 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell cymhleth a chanolig gan fwyaf, a ddefnyddir yn gymwys, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad.	7-9 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ran technegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell cymhleth a chanolig gan fwyaf, a ddefnyddir yn gymwys, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad.
2	4-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o dechnegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau paratoi a thechnegau cyllell canolig a sylfaenol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb. Nid oes angen fawr ddim arweiniad.	4-6 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ran technegau paratoi a thechnegau cyllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau paratoi a thechnegau cyllell canolig a sylfaenol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb. Nid oes angen fawr ddim arweiniad.

1	1-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o dechnegau paratoi a thechnegau cylllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau paratoi a thechnegau cylllell sylfaenol heb lawer o fanwl gywirdeb. Mae angen arweiniad.	1-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o dechnegau paratoi a thechnegau cylllell. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau paratoi a thechnegau cylllell sylfaenol heb lawer o fanwl gywirdeb. Mae angen arweiniad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 3 (c) *Coginiwch y seigiau, gan ddangos amrywiaeth o dechnegau coginio sylfaenol, canolig a chymhleth.* **[2x13] [26 marc]**

Band	AA2: <i>Defnyddio technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>	
	Saig 1	Saig 2
4	11-13 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau coginio cymhleth yn bennaf a ddefnyddir yn effeithiol, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad	11-13 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau coginio cymhleth yn bennaf a ddefnyddir yn effeithiol, gyda chyflymder a manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad
3	8-10 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau coginio cymhleth a chanolig yn bennaf, a ddefnyddir yn gymwys gyda manwl gywirdeb Nid oes angen unrhyw arweiniad.	8-10 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau coginio cymhleth a chanolig yn bennaf, a ddefnyddir yn gymwys gyda manwl gywirdeb. Nid oes angen unrhyw arweiniad.
2	4-7 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau coginio canolig a sylfaenol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb. Nid oes angen fawr ddim arweiniad.	4-7 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau coginio canolig a sylfaenol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb. Nid oes angen fawr ddim arweiniad.

1	1-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau coginio sylfaenol ond heb fawr ddim manwl gywirdeb Mae angen arweiniad.	1-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o goginio. Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau coginio sylfaenol ond heb fawr ddim manwl gywirdeb Mae angen arweiniad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Task 3 (ch) Cyflwynwch y seigiau mewn ffordd sy'n briodol i'r briff.**[2 x 4][8 marc]***Ymhlith y technegau y dylai ymgeiswyr eu dangos mae:*

- *creadigrwydd*
- *garnais ac addurno*
- *rheoli cyfrannau*
- *cyfwydydd.*

Band	AA2: <i>Defnyddio technegau (gan gynnwys technegau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>	
3	4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau cyflwyno gyda manwl gywirdeb. Mae'r cyflwyniad yn gwbl briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.	4 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos amrywiaeth o dechnegau cyflwyno gyda manwl gywirdeb. Mae'r cyflwyniad yn gwbl briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.
2	2-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau cyflwyno. Mae'r cyflwyniad yn briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.	2-3 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos technegau cyflwyno. Mae'r cyflwyniad yn briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.
1	1 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos rhai technegau cyflwyno. Mae'r cyflwyniad yn rhannol briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.	1 marc Mae'r ymgeisydd yn dangos rhai technegau cyflwyno. Mae'r cyflwyniad yn rhannol briodol i'r sefydliad a nodir yn y briff.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4(a) Aseswch y gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd.**[12 marc]**

Dylai ymgeiswyr ddarparu adolygiad o'u gwaith cynllunio, paratoi a choginio; gan dynnu sylw at llwyddiannau ac agweddau y gellir eu gwella ymhellach o bosibl.

Dylai atebion gyfeirio at y canlynol:

- *creu a dewis seigiau*
- *organoleptig gan gynnwys priodweddau*
- *gwelliannau*
- *cyflwyniad*
- *iechyd, diogelwch a hylendid*
- *gwastraff bwyd.*

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau
4	10-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog wrth asesu'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd drwy: • ddarparu adolygiad effeithiol iawn o'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd • rhoi ystyriaeth lawn i'r gwaith cynllunio, paratoi a choginio • darparu dadansoddiad effeithiol iawn o'r broses o ddewis a chreu'r seigiau • rhoi barn glir ynghylch priodweddau organoleptig y seigiau • rhoi ystyriaeth lawn i faterion iechyd, diogelwch, hylendid a gwastraff bwyd • cyflwyno casgliadau clir ynghylch gwelliannau, llwyddiannau a datblygiadau yn y dyfodol.
3	7-9 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da wrth asesu'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd drwy: • ddarparu adolygiad effeithiol o'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd • ystyried y gwaith cynllunio, paratoi a choginio • darparu dadansoddiad effeithiol o'r broses o ddewis a chreu'r seigiau • rhoi barn ynghylch priodweddau organoleptig y seigiau • ystyried materion iechyd, diogelwch, hylendid a gwastraff bwyd • cyflwyno casgliadau ynghylch gwelliannau, llwyddiannau a datblygiadau yn y dyfodol.
2	4-6 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol wrth asesu'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd drwy: • ddarparu adolygiad o'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd • rhoi ystyriaeth rannol i'r gwaith cynllunio a/neu baratoi a/neu goginio • darparu dadansoddiad o'r broses o ddewis a chreu'r seigiau • rhoi barn rannol ynghylch y priodweddau organoleptig • rhoi ystyriaeth rannol i faterion iechyd, diogelwch, hylendid a gwastraff bwyd • cyflwyno rhai casgliadau ynghylch gwelliannau, llwyddiannau a/neu ddatblygiadau yn y dyfodol.

1	1-3 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig wrth asesu'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd drwy: • ddarparu adolygiad cyfyngedig o'r gwaith o greu'r seigiau a gyflwynwyd • rhoi ychydig iawn o ystyriaeth i'r gwaith cynllunio neu baratoi neu goginio • darparu dadansoddiad cyfyngedig o'r broses o ddewis a chynhyrchu'r seigiau • rhoi ychydig iawn o farn ynghylch y priodweddau organoleptig • rhoi ychydig iawn o ystyriaeth i faterion iechyd, diogelwch, hylendid a gwastraff bwyd • cyflwyno casgliadau cyfyngedig ynghylch gwelliannau, llwyddiannau a/neu ddatblygiadau yn y dyfodol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 4 (b) Adolygwch eich perfformiad eich hun.**[12 marc]**

Dylech ddarparu adolygiad o'ch perfformiad eich hun. Dylech nodi cryfderau a gwendidau a dylai atebion gyfeirio at y canlynol:

- *gwneud penderfyniadau*
- *trefniadaeth*
- *cynllunio – gan gynnwys manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff*
- *rheoli amser.*

Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn resymegol a chyflwyno casgliadau
4	10-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog wrth adolygu ei berfformiad ei hun drwy: • ddarparu adolygiad effeithiol iawn o'i berfformiad ei hun wrth greu'r seigiau a gyflwynwyd • ystyried yn llawn y broses o nodi cryfderau a gwendidau • rhoi barn glir ynghylch y penderfyniadau a wnaed a manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff • ystyried rheoli amser a threfniadaeth yn llawn • cyflwyno casgliadau manwl ac effeithiol.
3	7-9 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da wrth adolygu ei berfformiad ei hun drwy: • ddarparu adolygiad effeithiol o'i berfformiad ei hun wrth greu'r seigiau a gyflwynwyd • ystyried y broses o nodi cryfderau a gwendidau • rhoi barn ynghylch y penderfyniadau a wnaed a manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff • ystyried rheoli amser a threfniadaeth • cyflwyno casgliadau manwl.
2	4-6 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol wrth adolygu ei berfformiad ei hun drwy: • ddarparu adolygiad o'i berfformiad ei hun wrth greu'r seigiau a gyflwynwyd • ystyried y broses o nodi cryfderau a gwendidau • rhoi barn rannol ynghylch y penderfyniadau a wnaed a manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff • ystyried rheoli amser a threfniadaeth yn rhannol • cyflwyno rhai casgliadau.

1	1-3 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig wrth adolygu ei berfformiad ei hun drwy: • ddarparu adolygiad o'i berfformiad ei hun wrth greu'r seigiau a gyflwynwyd • ystyried y broses o nodi cryfderau a gwendidau • rhoi ychydig iawn o farn ynghylch y penderfyniadau a wnaed a manteision ac anfanteision y seigiau a ddewiswyd a sut maent yn diwallu anghenion penodol y cwsmeriaid a nodir yn y briff • rhoi ychydig iawn o ystyriaeth i reoli amser a threfniadaeth • cyflwyno casgliadau cyfyngedig.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Mapio cwestiynau i'r fanyleb a'r amcanion asesu

Uned 2

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)									Dyraniad marciau			
	Pwnc ac Adran									Cyfanswm y Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	2.1		2.2		2.3			2.4					
	2.1.1	2.1.2	2.2.1	2.2.2	2.3.1	2.3.2	2.3.3	2.4.1	2.4.2				
1 (a)	8									8			8
1 (b)		4								4		4	
2 (a)			8							8			8
2 (b)				10						10		10	
3(a)							8			8		8	
3 (b)					24					24		24	
3 (c)					26					26		26	
3 (ch)						8				8		8	
4 (a)								12		12			12
4 (b)									12	12			12
Cyfanswm marciau ar gyfer yr adran	8	4	8	10	50	8	8	12	12	120			
Cyfanswm marciau ar gyfer y pwnc	12		18		66			24		120	0	80	40